



Annwyl Gwsmer,

## Ymgynghoriad cyhoeddus lleol - Dweud eich dweud

Swyddfa Bost Kingmills Road  
49 Kingmills Road, Wreccsam, LL13 8NL

Mae prydles yr adeilad yn Swyddfa Bost Kingmills Road ar fin dod i ben. Ni fydd yr adeilad ar gael wedyn i'w ddefnyddio gan Swyddfa'r Post ac mae'r gangen i fod i gael ei chau ddydd Sadwrn 23 Tachwedd 2024 am 17:30.

Felly, rydym yn bwriadu symud y gangen i leoliad newydd: 6 Heol y Tywysog Siarl, Wreccsam, LL13 8YD, lle byddai'n uno â changen Swyddfa'r Post Bryn Hafod ac yn cael ei hadnabod fel Swyddfa Bost Heol y Tywysog Siarl. Byddai'r gangen gyfunol newydd yn cael ei rhedeg gan y postfeistr presennol yn Kingmills Road fel un o'n canghennau prif-ddull, yn amodol ar ymgynghoriad.

### **Pam ydym yn cynnig y newid hwn?**

Mae'r postfeistr yn Swyddfa Bost Bryn Hafod wedi ymddiswyddo o redeg y gangen a mae'r gangen i fod i gau ddydd Llun 18 Tachwedd 2024 am 17:00. Os bydd ail-leoliad Swyddfa Bost Kingmills Road yn digwydd, bydd hyn yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i gymuned Bryn Hafod.

Yn ogystal, bydd rhaid i'r gwasanaethau allgymorth sy'n cael eu rhedeg gan bostfeistr cangen Bryn Hafod yn: Marchwiall, Bangor Is-coed, Yr Orsedd, Llannerch Banna, Higher Kinnerton a Cockshutt hefyd yn gorfod cau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 11 Tachwedd 2024. Ar hyn o bryd, nid yw'n fwriad cael gwasanaethau yn lle'r gwasanaethau allgymorth hyn ac rydym yn ymddiheuro am yr anhwylystod a all ddigwydd oherwydd y cau.

Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion am canghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae Swyddfa'r Post wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r rhwydwaith i wneud yn siŵr ei fod yn dal i ateb gofynion newidiol y cwsmeriaid mewn hinsawdd economaidd heriol dros ben. Bu'r adolygiad hwn yn archwilio'r rhwydwaith ar lefel leol, fanwl iawn, gan ddadansoddi galw cwsmeriaid a hygyrchedd gwasanaethau Swyddfa'r Post. Ein blaenoriaeth yw diogelu ein gwasanaethau yn y gymuned leol yn yr hirdymor.

Felly, byddai adleoli Swyddfa Bost Kingmills Road ac uno â Swyddfa Bost Bryn Hafod yn ein galluogi i gynnal gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol a dal i ateb gofynion ein cwsmeriaid ar gyfer y naill gangen a'r llall. Yn ogystal, mae cangen Swyddfa Bost Wreccsam 0.5 milltir o gangen Kingmills Road a gall y bydd y gangen hon yn fwy cyfleus i rai cwsmeriaid.

### **Hoffem gael eich cymorth**

Rydym nawr yn dechrau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac mae eich adborth yn bwysig i ni oherwydd bydd yn ein helpu i wneud ein penderfyniad. Mae rhagor o fanylion am y gwasanaethau a fwriedir a hygyrchedd y safle yn y crynodeb o wybodaeth am y gangen yn nes ymlaen yn y ddogfen ymgynghorol hon.

## Am beth yn hollol rydym yn ymgynghori?

Hoffem gael eich sylwadau ynghylch y canlynol:

- Pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad newydd arfaethedig?
- A yw'n hawdd i chi fynd i mewn i'r adeilad newydd ac i symud o gwmpas y tu mewn?
- A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r gymuned leol a allai, yn eich barn chi, gael eu heffeithio gan y newid arfaethedig neu ddylanwadu arno?
- Pe bai'r symud yn digwydd, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud fel ei bod yn haws i gwsmeriaid?

Mae'r newid a argymhellir i reolaeth y gangen yn benderfyniad i Swyddfa'r Post Cyf ac felly nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid.

Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau	<b>Dydd Mawrth 24 Medi 2024</b>
Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben	<b>Ddydd Mawrth 05 Tachwedd 2024</b>
Mis y newid arfaethedig	<b>Tachwedd 2024</b>

Gallwch rannu eich barn am y newid arfaethedig trwy ein holiadur hawdd a hwylus ar-lein ar [postofficeviews.co.uk](https://postofficeviews.co.uk). Wrth fynd i mewn i'r wefan, gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer y gangen hon – naill ai yn ôl enw'r gangen, y cod post neu'r cod unigryw ar gyfer y gangen: **568614**

### Sut i rannu eich barn:

#### Hyb Ymgynghori ([postofficeviews.co.uk](https://postofficeviews.co.uk))

[comments@postoffice.co.uk](mailto:comments@postoffice.co.uk)

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments – D.S. Hwn yw'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a anfonir drwy Freepost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd pen y daith, ac felly dylech ganiatáu digon o amser.

Eisiau rhoi eich barn i ni yma nawr? Sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa apiau.



### Mae'n dda gwybod

- Byddai cwsmeriaid yn gallu defnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn awyrgylch modern ochr yn ochr â siop y gweithredydd
- Trwy gydweithio â'r postfeistr, byddem yn addasu patrwm presennol y siop, ynghyd â'r celfi gosod a'r ffitiadau er mwyn gwneud lle i'r Swyddfa Bost Byddai mewn rhan benodol o'r siop gyda dau fan gwasanaeth â sgrin
- Byddem hefyd yn ychwanegu cyfleustra talu Swyddfa'r Post a fyddai'n fodern gyda sgrin isel wrth gownter y siop i gynnig y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post
- Byddai'r holl staff a gyflogid i weithio yn y gangen newydd arfaethedig yn cael hyfforddiant o'r safon uchaf yn barhaus ynghylch cynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal â materion gweithredol a materion yn ymwneud â gwasanaeth
- Nawr bydd posteri a thafenni yn cael eu harddangos yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am yr argymhelliad a gofyn iddynt am eu sylwadau
- Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried yn ofalus wrth i ni baratoi ein cynlluniau terfynol
- Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto ar ddiwedd yr ymgynghoriad i ymateb i'r prif faterion a godwyd ac i esbonio ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen
- Mae'r ymgynghoriad hwn yn unol a'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Grŵp Defnyddwyr yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae detholiad sy'n ymwneud ag ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall y newidiadau y bwriadwn eu gwneud i Swyddfa Bost Kingsmills. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni. Mae ein manylion cyswllt ar frig y dudalen hon.

Diolch ichi am ystyried ein hargymhelliad.

Yr eiddoch yn gywir,

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**  
**Rheolwraig Newidiadau Rhanbarthol**  
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

---

# Crynodeb Gwybodaeth am Swyddfa Bost Kingsmills Road / Heol y Tywysog Siarl

---

## Lleoliad Presennol

49 Kingsmills Road  
Wreccsam  
LL13 8NL

### Yr oriau agor presennol

Llun–Gwer	09:00 – 17:30
Sad	09:00 – 14:30 15:00 – 17:30
Sul	Ar Gau

## Y Lleoliad Newydd Arfaethedig

6 Heol y Tywysog Siarl  
Wreccsam  
LL13 8YD

### Yr oriau agor arfaethedig

Llun – Sad	09:00 - 17:30
Sul	Ar Gau

**Mae yna adegau o bosibl pan fydd rhaid newid oriau agor cangen. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)**

### Cynhyrchion a Gwasanaethau

Byddai'r un dewis o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd, gan gynnwys peiriant arian y tu mewn i'r adeilad.

### Mannau Gwasanaeth

Byddai dau fan gwasanaeth â sgrin.

### Mynediad

Byddai gan yr adeilad arfaethedig ddrws llydan a ramp wrth y fynedfa.

Y tu mewn, byddai dolen glyw, desg ysgrifennu isel, cownter gwasanaeth isel a lle i gadair olwyn.

### Cyrraedd yno

Byddai'r gangen arfaethedig tua 0.8 metr o'r gangen bresennol yn Kingsmills Road, ar hyd tir amrywiol ei natur.

Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw.

Mae yna wasanaeth bws rheolaidd rhwng cangen bresennol Kingsmills a'r lleoliad newydd arfaethedig. Mae bysiau'n aros tua 200 metr i ffwrdd o'r gangen newydd arfaethedig.

### Manwerth

Cardiau a deunydd ysgrifennu

---

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

## Canghennau eraill

Mae yna adegau o bosibl pan fydd rhaid newid oriau agor cangen. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau, gan gynnwys gwasanaethau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal, ar ein gwefan

[www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

Canghennau eraill yn lle gwasanaeth Swyddfa'r Post Marchwiail, Neuadd Y Pentref, 29 Rhodfa Piercy, LL13 0RH I fod i gau ddydd Mercher 13 Tachwedd 2024

Swyddfa Bost Pentre Maelor	Gwasanaethau				
18 Bridgeway East Pentre Maelor Wreccsam LL13 9RB	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.				
Yr oriau agor	Mynediad				
<table><tr><td>Llun–Gwen</td><td>08:30 – 15:00</td></tr><tr><td>Sad a Sul</td><td>Ar Gau</td></tr></table>	Llun–Gwen	08:30 – 15:00	Sad a Sul	Ar Gau	Mae gan y gangen fynediad gwastad a ramp gyda grisiau neu ganllawiau. Bydd cownter gwasanaeth isel, desg ysgrifennu isel, pad pin isel a dolenni clyw ar gael.
Llun–Gwen	08:30 – 15:00				
Sad a Sul	Ar Gau				

### Cyrraedd yno

Tua 2.4 milltir o gwasanaeth Swyddfa Bost Marchwiail. Mae modd parcio gerllaw. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Swyddfa Bost Wreccsam	Gwasanaethau				
WHSmith 58 Stryd-yr-Hob Wreccsam LL11 1BE	Bydd dewis o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael.				
Yr oriau agor	Mynediad				
<table><tr><td>Llun – Sad</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar Gau</td></tr></table>	Llun – Sad	09:00 – 17:30	Sul	Ar Gau	Mae gan y gangen hon ddrysau llydan awtomatig a mynedfa wastad. Bydd cownter gwasanaeth isel, desg ysgrifennu isel, pad pin isel a dolenni clyw ar gael.
Llun – Sad	09:00 – 17:30				
Sul	Ar Gau				

### Cyrraedd yno

Tua 2.4 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Marchwiail. Mae modd parcio gerllaw. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Canghennau eraill ar gyfer gwasanaeth Swyddfa Bost Bangor Is-coed, Heol Whitchurch, Bangor Is-coed, LL13 0AY I fod i gau ddydd Iau 14 Tachwedd 2024

Swyddfa Bost Pentre Maelor	Gwasanaethau				
18 Bridgeway East Pentre Maelor Wreccsam LL13 9RB	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.				
Yr oriau agor	Mynediad				
<table><tr><td>Llun–Gwen</td><td>08:30 – 15:00</td></tr><tr><td>Sad a Sul</td><td>Ar Gau</td></tr></table>	Llun–Gwen	08:30 – 15:00	Sad a Sul	Ar Gau	Mae'r mynediad yn wastad drwy gyfrwng ramp gyda grisiau neu ganllawiau. Bydd cownter gwasanaeth isel, desg ysgrifennu isel, pad pin isel a dolenni clyw ar gael.
Llun–Gwen	08:30 – 15:00				
Sad a Sul	Ar Gau				

### Cyrraedd yno

Tua 2.9 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Bangor Is-coed. Mae modd parcio gerllaw. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Swyddfa Bost Wrecsam	Gwasanaethau
WHSmith 58 Stryd-yr-Hob Wrecsam LL11 1BE	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

Yr oriau agor	Mynediad				
<table border="1"><tr><td>Llun – Sad</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar Gau</td></tr></table>	Llun – Sad	09:00 – 17:30	Sul	Ar Gau	Mae gan y gangen hon fynedfa wastad a drysau llydan awtomatig. Bydd cownter gwasanaeth isel, desg ysgrifennu isel, pad pin isel a dolenni clyw ar gael.
Llun – Sad	09:00 – 17:30				
Sul	Ar Gau				

**Cyrraedd yno**

Tua 4.9 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Bangor Is-coed. Mae modd parcio gerllaw. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

**Canghennau eraill yn lle gwasanaeth Swyddfa'r Post Yr Orsedd, Yr Eglwys Bresbyteriaidd, Heol yr Orsaf, LL12 0HE I fod i gau ddydd Gwener 15 Tachwedd 2024**

Swyddfa Bost Gresffordd	Gwasanaethau
Siop Spar 58 Heol Caer Gresffordd Wrecsam LL12 8NE	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

Yr oriau agor	Mynediad		
<table border="1"><tr><td>Llun - Sul</td><td>08:00 – 20:00</td></tr></table>	Llun - Sul	08:00 – 20:00	Mae gan y gangen hon ddrws awtomatig llydan a mynedfa wastad. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.
Llun - Sul	08:00 – 20:00		

**Cyrraedd yno**

Tua 2.0 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Yr Orsedd. Mae parcio cyfyngedig y tu allan i'r gangen, ynghyd â chilfan barcio i bobl anabl. Mae bysiau yn rhedeg yn aml rhwng Swyddfa Bost Yr Orsedd a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 80 metr i ffwrdd.

Swyddfa Bost Llai	Gwasanaethau
Morrisons Daily Sgwâr y Farchnad Llai Wrecsam LL12 0SA	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

Yr oriau agor	Mynediad		
<table border="1"><tr><td>Llun - Sul</td><td>06:00 – 23:00</td></tr></table>	Llun - Sul	06:00 – 23:00	Mae gan y gangen hon ddrws awtomatig llydan a mynedfa wastad. Y tu mewn, bydd dolen glyw, desg ysgrifennu isel, cownter gwasanaeth isel a lle i gadair olwyn.
Llun - Sul	06:00 – 23:00		

**Cyrraedd yno**

Tua 2.6 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Yr Orsedd. Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Canghennau yn lle gwasanaeth Swyddfa'r Post Llannerch Banna, Canolfan y Bwa Enfys, Heol  
Whitchurch, LL13 0LR I fod i gau ddydd Mawrth 12 Tachwedd 2024

Swyddfa Bost Hanmer	Gwasanaethau
Hanmer Whitchurch Swydd Amwythig SY13 3DE	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

Yr oriau agor	Mynediad
Llun a Maw	08:00 – 17:30
Mer	08:00 – 13:00
Iau a Gwen	08:00 – 17:30
Sad	08:00 – 13:00
Sul	08:30 – 10:30

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a gris wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**

Tua 2.7 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Llannerch Banna. Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Swyddfa Bost Ellesmere	Gwasanaethau
26 Scotland Street Ellesmere Swydd Amwythig SY12 0EG	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

Yr oriau agor	Mynediad
Llun a Maw	08:30 – 17:30
Mer-Gwen	09:00 – 17:30
Sad	09:00 – 13:00
Sul	Ar Gau

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a grisiau wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**

Tua 4.2 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Llannerch Banna. Mae modd parcio am amser cyfyngedig wrth ymyl y ffordd gerllaw. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Canghennau yn lle gwasanaeth Swyddfa'r Post Higher Kinnerton, Neuadd Y Pentref, Bennetts Lane  
CH4 9AR I fod i gau ddydd Llun 11 Tachwedd 2024

Swyddfa Bost Dodleston	Gwasanaethau
Kinnerton Road Dodleston CH4 9LP	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

Yr oriau agor	Mynediad
Llun – Sad	07:00 – 19:30
Sul	08:00 – 18:00

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**

Tua 2.7 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Higher Kinnerton. Mae modd parcio gerllaw. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Swyddfa Bost Brychdwn	Gwasanaethau
7 Ffordd Neuadd Brychdwn Brychdwn CH4 0QR	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

Yr oriau agor	Mynediad						
<table><tr><td>Llun–Gwen</td><td>09:00 – 17:00</td></tr><tr><td>Sad</td><td>09:00 – 12:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar Gau</td></tr></table>	Llun–Gwen	09:00 – 17:00	Sad	09:00 – 12:00	Sul	Ar Gau	Mae gan y gangen hon ddrws awtomatig llydan a mynedfa wastad. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.
Llun–Gwen	09:00 – 17:00						
Sad	09:00 – 12:00						
Sul	Ar Gau						

### Cyrraedd yno

Tua 3.3 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Higher Kinnerton. Mae modd parcio y tu allan i'r gangen, ynghyd â man parcio penodol i bobl anabl. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

**Canghennau eraill yn lle gwasanaeth Swyddfa'r Post Cockshutt, Shrewsbury Road, Cockshutt, SY12 0JE I fod i gau ddydd Mawrth 12 Tachwedd 2024**

Swyddfa Bost Ellesmere	Gwasanaethau
26 Scotland Street Ellesmere Swydd Amwythig SY12 0EG	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

Yr oriau agor	Mynediad								
<table><tr><td>Llun a Maw</td><td>08:30 – 17:30</td></tr><tr><td>Mer-Gwen</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Sad</td><td>09:00 – 13:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar Gau</td></tr></table>	Llun a Maw	08:30 – 17:30	Mer-Gwen	09:00 – 17:30	Sad	09:00 – 13:00	Sul	Ar Gau	Mae gan y gangen hon ddrws llydan a grisiau wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.
Llun a Maw	08:30 – 17:30								
Mer-Gwen	09:00 – 17:30								
Sad	09:00 – 13:00								
Sul	Ar Gau								

### Cyrraedd yno

Tua 4.5 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Cockshutt. Mae modd parcio am amser cyfyngedig wrth ymyl y ffordd gerllaw. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Swyddfa Bost Wem	Gwasanaethau
Co-op Parc Siopa Morris Central Amwythig SY4 5NY	Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

Yr oriau agor	Mynediad				
<table><tr><td>Llun – Sad</td><td>08:00 – 20:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>10:00 – 16:00</td></tr></table>	Llun – Sad	08:00 – 20:00	Sul	10:00 – 16:00	Mae gan y gangen hon ddrws awtomatig llydan a mynedfa wastad. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.
Llun – Sad	08:00 – 20:00				
Sul	10:00 – 16:00				

### Cyrraedd yno

Tua 6.3 milltir o wasanaeth Swyddfa Bost Cockshutt. Mae modd parcio y tu allan i'r gangen, ynghyd â man parcio penodol i bobl anabl. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.



## **Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r dogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - [postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyni'r Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Ymgynghori** – wrth chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post yn barhaol<sup>5</sup>
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreinio cangen â Rheolaeth Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos<sup>6</sup> er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid, cynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr, ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os penderfynir bwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd ac i mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth hon ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

[postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)  
[Comments@postoffice.co.uk](mailto:Comments@postoffice.co.uk)  
**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**  
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>5</sup> Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'r rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath bydd yr ymgynghoriad yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post arall yn yr ardal.

<sup>6</sup> Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd